

Cerdyn Teithio Rhatach Canllawiau ar Gyfer Ymgeisio



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llenwi'r ffurflen gais

Llenwch y ffurflen yn ddigon clir gan ddefnyddio beiro ddu a chynnwys llun maint pasbort sy'n dangos eich wyneb yn glir (pen ac ysgwyddau'n unig) ar y ffurflen.

Cofiwch gynnwys copïau clir o'r dogfennau perthnasol i brofi'ch bod yn gymwys am Gerdyn Teithio Rhatach. Mae'r adrannau isod yn esbonio pa ddogfennau sydd angen eu darparu ar gyfer pob math o gerdyn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â'ch cyngor lleol neu ffoniwch ni ar 0300 303 4240.

Cofiwch, mae'n haws gwneud cais yn www.trc.cymru/cerdynteithio. Os yw'ch manylion yn cyfateb yn electronig i gofnodion llywodraeth ganolog, gallwn brosesu'ch cais heb unrhyw dystiolaeth o'ch enw, oedran neu gyfeiriad.

Ar ôl cwblhau'r cais, gofalgwch fod yr holl fanylion yn gywir a'i bostio i:

Cardiau Teithio Rhatach or Concessionary
Travel Card,
PO Box 55
Penrhyndeudraeth
LL49 0AY

Pa ddogfennau sydd angen eu cyflwyno?

Math o gais	Tystiolaeth ofynnol
60 a Throsodd	Mae angen (a) dau brawf o'ch cyfeiriad ac (b) un prawf o'ch oed. Darllenwch adrannau 1 a 2 drosodd am fanylion.
Anabl	Mae angen (a) dau brawf o'ch cyfeiriad, (b) un prawf o'ch oed (c) a'ch anabled. Mwy o fanylion yn adrannau 1, 2 a 5 drosodd.
60 a Throsodd ac Anabl	Gan fod hawliau teithio'r un fath i bobl 60 Oed a Throsodd a Phobl Anabl, dylech wneud cais am Gerdyn Teithio Rhatach 60 Oed a Throsodd, sy'n gofyn am lai o dystiolaeth na Cherdyn Person Anabl.
Anabl Gyda Chydymaith	Os ydych chi'n gwneud cais am y tro cyntaf am Gerdyn Person Anabl gyda Chydymaith, cysylltwch â'ch cyngor lleol. Os oes gennych chi Gerdyn Person Anabl gyda Chydymaith yn barod, gallwch wneud cais am gerdyn newydd yn www.trc.cymru/cerdynteithio
Newid enw	Tystiolaeth o'ch newid enw. Darllenwch adran 3 drosodd.
Newid cyfeiriad	Mae angen dau brawf o'ch cyfeiriad newydd. Darllenwch adran 1 drosodd.

COFIWCH: Does dim angen i chi llenwi'r ffurflen gais ar babur os ydych chi eisoes wedi gwneud hynny ar-lein.

1. Prawf o'ch cyfeiriad

Mae angen i ni wirio'ch cyfeiriad ar gyfer pob cerdyn (60 oed a throsodd a pherson anabl). Cyflwynwch ddau gopi o unrhyw rai o'r canlynol:

- Bil y dreth gyngor neu dystiolaeth o esemptiad y dreth gyngor (blwyddyn ariannol gyfredol)
- Tystiolaeth o daliadau rhent (o fewn y 3 mis diwethaf)
- Trwydded yrru gyfredol
- Dogfennau budd-daliadau a phensiwn (blwyddyn ariannol gyfredol)
- Bil cyfleustodau ar wahân i ffôn symudol (o fewn y 3 mis diwethaf)
- Cadarnhad bod ymgeisydd ar y gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau seneddol y DU
- Cadarnhad eich bod ar gofrestr ysgol
- Tystiolaeth eich bod yn ddibynnydd person sy'n byw yn ardal y cyngor
- Tystiolaeth eich bod dan ofal eich cyngor lleol neu asiantaeth gymeradwy a'ch bod yn byw yn ardal y cyngor
- Tystiolaeth eich bod wedi cofrestru'n barhaol gyda meddyg teulu lleol
- Tystiolaeth o ddogfennau'r Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau'ch hawl preswyllo

2. Prawf o'ch oed

Mae angen i ni wirio'ch oed ar gyfer pob cerdyn (60 Oed a Throsodd a Pherson Anabl). Darparwch gopi o un o'r canlynol:

- Pasbort cyfredol
- Trwydded yrru gyfredol
- Tystysgrif eni (sy'n dangos eich enw)
- Copi o ddogfen swyddogol sy'n dangos eich oed, fel dogfen pensiwn y wladwriaeth neu gerdyn meddygol y GIG

3. Prawf o newid enw

Cyflwynwch gopi o ddogfen gyfreithiol sy'n dangos yn glir beth yw'ch enw newydd a'r cyswllt â'r enw blaenorol, fel tystysgrif priodas neu weithred newid enw.

4. Prawf ar gyfer Cerdyn Teithio Person Anabl gyda Chydymaith

Cysylltwch â 'ch cyngor lleol a fydd yn asesu a ydych yn bodloni un o'r meini prawf canlynol:

- Ymddygiad heriol: Mae angen i chi gael eich goruchwyllo bob amser;
- Namau gwybyddol a meddyliol difrifol (gan gynnwys os nad oes gennych unrhyw ymwybyddiaeth o risg a gallu cyfyngedig i gynllunio a dilyn taith);
- Cyfuniad o golli golwg a chlyw neu golli golwg a lleferydd sy'n atal symudedd annibynnol; neu
- Anawsterau defnyddio cadair olwyn yn annibynnol.

5. Prawf ar gyfer Cerdyn Teithio Person Anabl

Os ydych chi'n gwneud cais ar sail eich anabledd, mae'r prawf gofynnol yn amrywio yn ôl eich anabledd. Dylech gyflenwi pa bynnag un o'r canlynol sy'n berthnasol i'ch cais.

- Llythyr dyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n rhoi manylion dyfarniad Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd
 - Datganiad Hawliad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n dangos:
 1. 8 neu fwy o bwyntiau dan Ddisgrifydd 7 "Cyfathrebu llafar" neu
 2. 12 o bwyntiau dan ddisgrifydd 11 "Cynllunio a dilyn taith" neu
 3. 8 neu fwy o bwyntiau dan Ddisgrifydd 12 "Symud O Gwmpas"
- COFIWCH: Peidiwch ag adio'r disgrifyddion PIP a'u sgorau unigol gyda'i gilydd**
- Llythyr dyfarnu Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel Veterans UK ar bapur pennawd swyddogol
 - Llythyr dyfarnu'r Weinyddiaeth Amddiffyn o dan dariffau 1-8 Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog (AFCS) ar bapur pennawd swyddogol
 - Cymeradwyaeth Asesu Cymhwysedd gan eich cyngor eich bod yn bodloni un o'r meini prawf canlynol:
 1. Wedi colli llawer o'ch golwg yn ddwy lygad
 - i. nam difrifol ar eich golwg – methu darllen (gyda'ch sbectols os ydych chi'n eu gwisgo) llythyren uchaf siart prawf golwg safonol 3 metr neu lai i ffwrdd
 - ii. nam ar eich golwg – dim ond yn gallu darllen (gyda'ch sbectols os ydych chi'n eu gwisgo) llythyren uchaf siart prawf golwg safonol 6 metr neu lai i ffwrdd
 2. Rydych chi'n gwbl fyddar neu'n ddifrifol o fyddar; wedi colli 70 desibel (dBHL) neu fwy o'ch clyw yn y ddwy glust
 3. Methu siarad – methu cyfathrebu ar lafar mewn unrhyw iaith
 4. Mae gennych nam neu anaf sydd wedi cael effaith hirdymor sylweddol ar eich gallu i gerdded
 5. Does gennych chi ddim breichiau neu wedi colli'r defnydd o'r ddwy fraich am gyfnod hir
 6. Mae gennych nam gwybyddol
 7. Ni fyddech yn gallu cael trwydded i yrru cerbyd dan Ran III o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, yn unol ag adran 92 o'r Ddeddf honno (ffitrwydd corfforol) ac eithrio ar sail camddefnydd parhaus o alcohol neu gyffuriau

Os ydych chi'n bodloni un o'r meini prawf cymhwysedd 1-7 uchod, cysylltwch a'ch cyngor lleol i ddarganfod pa tystoliaeth sydd angen

Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r dystiolaeth?

Byddwn yn defnyddio'ch dystiolaeth i ddilysu'ch cais. Mae cyflenwi dogfennau ffug yn fwriadol yw twyll. I gael manylion am sut rydym yn rheoli eich gwybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.trc.cymru/datganiad-preifatrwydd